

## LLOYD, JOHN (1733-1793), clerigwr a hynafiaethydd

**Enw:** John Lloyd  
**Dyddiad geni:** 1733  
**Dyddiad marw:** 1793  
**Priod:** Martha Lloyd (née Williams)  
**Plentyn:** Angharad Llwyd  
**Plentyn:** Llewelyn Lloyd  
**Rhiant:** Elizabeth Lloyd (née Jones)  
**Rhiant:** John Lloyd  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** clerigwr a hynafiaethydd  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Hanes a Diwylliant  
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn 1733 (bedyddiwyd 26 Mawrth) yn Llanarmon-yn-lâl, yn fab i John Lloyd (a fu farw 1756) o Fodidris a'i wraig Elizabeth (Jones) (a fu farw 1768) o'r Gerddi Duon, yr Wyddgrug. Ni ddylid cymryd yn ganiataol mai cainc oedd hon o hen deulu ' **Lloyd o Fodidris**'; yr oedd y tad yn fab i Richard Lloyd o'r Cwmbychan yn Ardudwy (a fu farw 1697), ac yr oedd yr hynafiaethydd felly'n gefnder i Evan Lloyd, Cwmbychan, yr hen uchelwr Cymreigaidd y bu **Pennant** a John Lloyd yn ymweld ag ef (*Tours in Wales*, arg. 1883, ii, 268); yn ôl **Philip Yorke** (*Royal Tribes of Wales*, arg. 1887, 111) yr oedd John Lloyd y tad wedi plwyfo yn Llanarmon 'yn gynnar yn y 18fed ganrif ' - chwanega **Yorke** y llysenwid John Lloyd, ieu., yn ei fachgendod, yn ' Blodeu, or flower of Llanarmon.' Ymaelododd yn Rhydychen (o Goleg Iesu) yng Ngorffennaf 1753, a graddiodd yn 1757 (Foster, *Alumni Oxonienses*); yr oedd wedi ei urddo eisoes, yn 1756, pan drwyddedwyd ef yn gurad yn ' Llanasaph.' Yn 1761 cawn ef yn gurad yng Nghaerwys. Penodwyd ef yn 1774 yn rheithor Nannerch, ond daliai i fyw yng Nghaerwys, gan gadw curad yn Nannerch hyd 1778, pan roddwyd rheithoraeth Nannerch i wr arall (**Thos.**, *A History of the Diocese of St. Asaph*, ii, 421), a'i benodi yntau'n rheithor Caerwys (op. cit., ii, 12). Bu farw 22 Mai 1793, a chladdwyd yng Nghaerwys. Ei wraig (1769) oedd Martha (bu farw 1810), ferch Francis Williams; o'u hamryw blant, y mae'n rhaid enwi **Angharad Llwyd** a hefyd Llewelyn Lloyd (1770 - 1841), a fu'n rheithor Nannerch (**Thos.**, op. cit., ii, 422) o 1810 hyd 1841.

Ystyrir John Lloyd o Gaerwys yn gryn ysgolhaig yn ei ddydd. Bu ganddo law yn y paratodau at gyhoeddi'r *The Myvyrian Archaeology of Wales*; yr oedd yn gyfaill i **Philip Yorke**; cydnebydd **Warrington** help a gafwyd ganddo at ei *Hist. of Wales*; a geilw **Pennant** ef (*Tours*, rhagymadrodd) ' my worthy and constant attendant in all my excursions.'

Gan i'r John Lloyd hwn gael ei uniaethu ar gam â chynifer a thri o glerigwyr eraill, bydd yn hwylus nodi'r rheini:

(1) JOHN LLOYD (1733 - 1814),

mab Critchley Lloyd o Landysilio-yn-lâl a'i wraig Anne Thelwall o Flaen-lâl; bu yntau yng Ngholeg Iesu, a gelwir ef yn B.A., er na ddywed Foster iddo raddio. Bu hwn yn gurad Llandegla, ac yn rheithor Betws Gwerfyl Goch, 1766-94 (**Thos.**, op. cit., ii, 12); yn 1794, dilynodd ei gyfenw yr hynafiaethydd yn rheithoraeth Caerwys; y mae cofnod o'i farw yn rhifyn Mai 1814 (523) o'r *Gentleman's Magazine*. Nid annaturiol fu i *Lyfryddiaeth y Cymry* (636) ei gamgymryd am ei ragflaenydd.

(2) JOHN LLOYD (1754 - 1807?),

mab William Lloyd, ysw., o hen deulu yn Llansteffan, Sir Gaerfyrddin. Aeth hwn hefyd i Goleg Iesu, yn 1758; graddiodd yn 1762 (B.D., 1772) - odid nad hwn yw'r ' Mr. Lloyd, o Sir Gaerfyrddin,' a oedd (ymhlith llu o aelodau eraill Goleg Iesu) yn aelod gohebol o'r Cymmrodorion yn 1762. Ni ddywed Foster iddo gael cymrodoriaeth yn ei goleg; ond yn ôl Hardy (*Jesus College*, 243), yr oedd ' John Lloyd, Carmarthenshire ', yn gymrawd o 1765 hyd 1773. Penodwyd ef yn 1773 yn ficer Holywell (**Pennant**, *Hist. of Whiteford and Holywell*, 236; **Thos.**, *A History of the Diocese of St. Asaph*, ii, 196) ac yn 1782 (**Thos.**, op. cit., ii, 371) yn ficer Cilcain hefyd. Dywed Foster iddo farw yn 1803, ond nid yw **Thomas** yn nodi penodiad olynnydd iddo yn yr un o'r ddau blwyf hyd 1807 - felly hefyd Simpson, *Cilcain and its Parish Church*, 57. *Enw. F.* sy'n cymysgu hwn â **John Lloyd** yr hynafiaethydd.

(3) JOHN LLOYD

(pwy bynnag oedd), a oedd yn Llanfihangel-yng-Ngwynfa yn 1780 (**Thos.**, *A History of the Diocese of St. Asaph*, ii, 230). *Enw. F.* a aeth ar gam yma eto.

Ar ben hyn oll, dywed **M. O. Jones** (*Bywgraffiaeth Cerddorion Cymreig*) fod ' John Lloyd o Gaerwys, cyfaill **Pennant**,' yn fab i John Lloyd (a fu farw 1764), telynor enwog ym Meirionnydd yn hanner cyntaf y 18fed ganrif, a symudodd i fyw i'r Aelwyd Ucha, Llanarmon-yn-lâl. Ond tystia'r cofnodion eglwysig mai ym Modidris yr oedd John Lloyd, tad yr hynafiaethydd, yn byw, ac iddo farw yn 1756.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Ffynonellau

Heblaw'r ffynonellau a nodwyd, defnyddiwyd copiau o recordiau esgobaeth Llanelwy, a gafwyd trwy garedigrwydd Mr. E. D. Jones, o'r Llyfrgell Genedlaethol

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q6245031

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawffraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>



Jenkins, R. T., (1953). LLOYD, JOHN (1733-1793), clericwr a hynafiaethydd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 13 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-LLOY-JOH-1733>

Clippwr

Preifatrwydd a Chwcis  
Hawffraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Modeld gan:  
Llywodraeth Cymru  
Developed by:  
Welsh Government